

CYNGOR GWYNEDD GWYNEDD COUNCIL

Cofnodion drafft 19eg cyfarfod Grŵp Cyswllt Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2010 (gan ddechrau am 7pm) ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog.

Yn bresennol:

Alison Hargrave (AH)	Swyddog ACA PLAS
Dafydd Roberts (DR)	AP – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (Cadeirydd)
Mike Bowyer (MB)	Arall - Archaeoleg
Mike Parry (MP)	Twristiaeth
Bill Miller-Jones (BMJ)	Arall – Plymiwr a pherchennog cwch
Alan Gayden (AG)	Cyngor Cymuned – Dyffryn Ardudwy a Thal y Bont
Rowland Sharp (RS)	Arall
Barry Davies (BD)	AP – Cyngor Gwynedd
Rhys Jones (RJ)	AP – Cyngor Gwynedd
Glynne Roberts (GR)	Pysgota Masnachol – Cymdeithas Pysgotwyr Glannau Llŷn
Bill Bracewell (BB)	Adloniant – Partneriaeth Aberdyfi
David Roberts (DavR)	Awdurdod Lleol - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Glen Bickell (GB)	Diwydiant
Gabrielle Wyn (GW)	Siaradwraig – Ecolegydd Rhynglanwol CCCG

(PLAS – Pen Llŷn a'r Sarnau)

(AP – Awdurdod Perthnasol)

Cyflwyniad

Croesawodd DR bawb i'r cyfarfod ac eglurodd mai ef fyddai'n cadeirio'r cyfarfod yn absenoldeb Caerwyn Roberts. Ymddiheurodd hefyd nad oedd cyfieithwyr Cyngor Gwynedd wedi dod i'r cyfarfod a gofynnodd a oedd pawb yn fodlon i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Saesneg. Roedd pawb yn fodlon.

1. Ymddiheuriadau:

Y Cyng. Ray Quant	Awdurdod Lleol – Ceredigion
Y Cyng. Caerwyn Roberts	Awdurdod Lleol – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (cadeirydd)
Lucy Kay	AP – CCCG

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

2.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

3. Materion yn codi

3.1 Eitem 4.5 (RS i anfon manylion y grwpiau lleol sy'n ymwneud â'r siop wag yn y Bermo at y Swyddog ACA): Eglurodd RS fod cymhlethdodau wedi codi. Pe bai eitemau'n cael eu harddangos yn y siop byddai'n rhaid talu treth ar yr adeilad, felly mae'r cynlluniau wedi eu cael eu gohirio am y tro. ***Cam gweithredu wedi ei gwblhau.***

4. Y Wybodaeth Ddiweddaraf gan y Swyddog ACA

4.1 Gwaith a gwblhawyd rhwng Mai 2010 a Thachwedd 2010

Eglurodd AH ei bod yn ôl yn ei gwaith ers canol Medi yn dilyn cyfnod ar absenoldeb mamolaeth. Diolchodd i Dafydd Jones am yr holl waith yr oedd wedi ei wneud a dymunodd yn dda iddo yn ei swydd newydd fel cynorthwyydd gydag AHNE Llŷn.

Cyfeiriodd AH yn fyr at y gwaith oedd wedi cael ei wneud ers y cyfarfod diwethaf.

- 12 ymweliad ag ysgolion, gan gynnwys sesiynau ystafell ddosbarth ac ymweliadau â'r traeth
- Mae arddangosfa symudol PLAS wedi ymweld â phedair sioe – yr Ŵyl Bwyd Môr, 'Botanical Beats', Sioe Gogledd Cymru a Sioe Harlech
- Mae dau ddigwyddiad wedi cael eu cynnal – saffari pyllau glan môr yng Nghricieth a thaith gerdded i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
- Rhoddwyd cyflwyniadau i Glwb Rotari Caernarfon a grŵp Messy Church yn Nyffryn Ardudwy
- Cynhyrchwyd a dosbarthwyd 8^{fed} rhifyn y cylchlythyr

Ychwanegodd AH ei bod yn gweithio ar y canlynol ar hyn o bryd:

- Cynllun Rheoli PLAS
- Sioe Deithiol 'Cool Seas' y flwyddyn nesaf
- Diweddarau gwefan PLAS
- Ysgrifennu erthyglau, e.e. i gylchlythyr AHNE
- Ymateb i ymgynghoriadau, e.e. Parthau Cadwraeth Morol Gwarchodedig Iawn a Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol
- Edrych ar ffynonellau ariannol er mwyn parhau â gwaith yr ACA
- Prosiect Troi'r Llanw

4.2 Prosiect sbwriel Troi'r Llanw

Cafwyd grant gan Trefi Taclus i gynnal prosiect sbwriel. Pwrpas y prosiect oedd cynnal nifer o ddigwyddiadau i helpu i fynd i'r afael â phroblem sbwriel ar draethau PLAS ac mewn ardaloedd cyfagos a chodi ymwybyddiaeth o'r broblem hon. Mae un ar ddeg o ddigwyddiadau wedi cael eu cynnal yn ystod cyfnod y prosiect gan gyfuno gweithgareddau glanhau traethau â gweithgareddau fel saffaris caiacio ac archwilio pyllau glan môr. Bydd gweddill y grant yn cael ei wario ar boster a fydd yn hyrwyddo'r ACA ac yn annog pobl i beidio â thaflu sbwriel. Bydd yn cael ei drefnu fel cystadleuaeth er mwyn cael cynifer o bobl ag sy'n bosib i gymryd rhan. Dylai'r poster fod yn barod erbyn mis Chwefror. Eglurodd AH hefyd ei bod wedi dechrau cronfa ddata sbwriel ar gyfer yr holl grwpiau sy'n glanhau'r traethau. Bydd hyn yn caniatáu i ni roi cyhoeddusrwydd i'r hyn y maent yn ei wneud a bydd yn dangos y darlun cyflawn ac yn gadael i ni weld pwy sy'n glanhau ym mhle. Dangosodd AH gyflwyniad a roddwyd gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol mewn cyfarfod blaenorol, yn dangos y difrod y mae sbwriel yn gallu ei achosi.

Cwestiynau / Trafodaeth:

- Dywedodd MP y dylai'r broblem sy'n cael ei hachosi gan fagiau plastig wella pan fydd pobl yn gorfod talu amdanynt.

- Dywedodd BMJ y dylem fod yn codi'r mater hwn ar lefel ryngwladol er mwyn mynd i'r afael â gwraidd y broblem. Mae wedi gweld eitemau amrywiol yng nghanol y sbwriel sy'n dod o wledydd fel Iwerddon a Chanada.
- Ychwanegodd RS fod rhyddhau balwnau i'r awyr yn dal yn broblem. Cyfeiriodd at ddigwyddiad mawr a oedd wedi cael ei drefnu gan Asda i godi ymwybyddiaeth o ganser y fron. Roedd llawer o bobl wedi cwyno ynglŷn â hyn, ac roedd y siop Asda benodol hon wedi dweud na fyddai'n gwneud yr un peth eto. Cytunodd y grŵp fod hyn yn fater o godi ymwybyddiaeth. Nid yw pobl yn sylweddoli bod y balwnau'n troi'n sbwriel ac yn achosi niwed. Awgrymodd RS y gallai GEMS ysgrifennu llythyr ar y cyd ynglŷn â'r mater hwn a'i anfon at gwmnïau.
- Gofynnodd DavR faint y mae Cyngor Gwynedd yn ei wario ar waith glanhau traethau. Dywedodd BD fod y Cyngor yn buddsoddi £130,000 y flwyddyn. Cytunodd AH i edrych a oedd y ffigurau yng nghyflwyniad y Gymdeithas Gadwraeth Forol ynglŷn â chostau sbwriel morol yn gywir. Ychwanegodd BD eu bod yn glanhau'r traethau amwynder bob dydd.

Gweithredu: AH i edrych a oedd ffigurau'r Gymdeithas Gadwraeth Forol ynglŷn â chostau sbwriel morol yn gywir

- Dywedodd BB nad yw peiriannau'n cael eu defnyddio i lanhau traethau. Ychwanegodd BD mai'r rheswm am hyn oedd yr effaith y byddent yn ei gael ar yr amgylchedd.
- Dywedodd DavR y gallem wneud yn well a gwario mwy er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud.
- Eglurodd BD fod pob awdurdod lleol yn wynebu toriadau.
- Dywedodd AG ei fod yn ymwneud â grŵp adfywio lleol yn Nyffryn Ardudwy a fyddai'n hoffi mynd ati i lanhau traethau, ond bod angen yswiriant i wneud y gwaith a bod gormod o broblemau yn ymwneud ag iechyd a diogelwch. Awgrymodd AH y dylent gysylltu â'r ymgyrch Cadw Cymru'n Daclus. Mae gan y mudiad hwn yswiriant ar gyfer grwpiau.

Gweithredu: AH i anfon manylion cysylltu Cadw Cymru'n Daclus at AG

- Dywedodd AG ei bod yn bosib y gallai mwy o baneli dehongli yn ymwneud â sbwriel fod o gymorth.
- Awgrymodd DR y dylid gosod rhyw fath o ddirwy ar boteli plastig, fel bod pobl yn cael yr arian yn ôl pan fyddent yn dod â'r botel yn ôl.
- Awgrymodd RS y dylid cael mwy o finiau.
- Dywedodd BMJ fod llai o sbwriel sy'n gysylltiedig â charthion eleni.
- Awgrymodd DavR y dylem roi mwy o gyhoeddusrwydd i'r mater.
- Awgrymodd MB fod gan y rhan fwyaf o'r cwmnïau mawr swyddogion amgylcheddol ac y dylem gysylltu â hwy. Dywedodd hefyd ei fod yn synnu bod 0.8% o'r sbwriel y daethpwyd o hyd iddo'n sbwriel meddygol.

Gweithredu: AH i sefydlu grŵp ffocws i drafod y mater hwn ymhellach

5. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â Chynllun Rheoli Traethlin 2

Eglurodd AH nad oedd Greg Guthrie yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod a'i bod wedi cael diweddariad byr gan Huw Davies o Gyngor Gwynedd. Eglurodd fod pethau wedi mynd ar ei hôl hi braidd. Dylai'r ymgynghoriad cyhoeddus ddechrau yn Chwefror a phara rhyw dri mis. Bydd Greg Guthrie yn cynnal 4-6 cyfarfod cyhoeddus i drafod y Cynllun Rheoli Traethlin drafft.

Cwestiynau / Trafodaeth:

- Gofynnodd MP a fyddai modd anfon dyddiadau'r cyfarfodydd hyn at bawb cyn gynted ag y bo modd.

Gweithredu: AH i anfon dyddiadau cyfarfodydd cyhoeddus y Cynllun Rheoli Traethlin at bawb cyn gynted ag y maent ar gael.

- Dywedodd BD mai dogfen gyffredinol yw dogfen y Cynllun Rheoli Traethlin ac na fydd yn cyfeirio at leoliadau penodol.

6 Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ardaloedd Gwarchodedig Morol yng Nghymru

Rhoddodd RS gyflwyniad ar y sefyllfa bresennol o ran Ardaloedd Gwarchodedig Morol yng Nghymru. Mae Ardaloedd Gwarchodedig Morol yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, safleoedd RAMSAR a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Ym Medi 2009 cynhyrnod Llywodraeth Cynulliad Cymru ddogfen dan y teitl 'Gwarchod Moroedd Cymru' a oedd yn amlinellu ei chynlluniau i ddefnyddio math newydd o ddynodiad ar gyfer Ardal Warchodedig Forol, sef Parth Cadwraeth Morol. Y bwriad yng Nghymru yw cael nifer fach o Barthau Cadwraeth Morol Gwarchodedig iawn gan fod gennym ddigon o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Am ragor o wybodaeth ewch i wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru www.wales.gov.uk ac edrychwch am y Parth Cadwraeth Morol.

7 Cyflwyniad a thrafodaeth ar rywogaethau estron yn nyfroedd Cymru

Rhoddodd GW gyflwyniad ar rywogaethau estron yn nyfroedd Cymru. Mae GW yn gweithio fel Ecolegydd Rhynglanwol i CCGC. Eglurodd GW beth yw rhywogaethau estron, sut y maent yn dod i'r Deyrnas Unedig a beth rydym yn ei wneud ynglŷn â'r broblem. Mae'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol yn ystyried rhywogaethau estron fel y bygythiad mwyaf ond un i gynefinoedd brodorol y byd. Y bygythiad mwyaf yw difrodi cynefinoedd. Mae tua 3,500 o rywogaethau estron wedi cael eu cofnodi yn y Deyrnas Unedig ac mae tua 1,100 wedi cael eu cofnodi yng Nghymru. Nid yw'r rhan fwyaf o'r rhain yn rhywogaethau goresgynnol. Mae 44 o rywogaethau morol estron wedi cael eu cofnodi yng Nghymru ac mae 7 ohonynt wedi cael eu dosbarthu fel rhywogaethau goresgynnol iawn (1 alga a 6 anifail). Ychydig o rywogaethau estron goresgynnol sydd yng Nghymru ar hyn o bryd, ond mae'r nifer yn cynyddu. Am ragor o wybodaeth ewch i <https://secure.fera.defra.gov.uk/nonnativespecies/home/index.cfm>.

Cwestiynau a thrafodaeth:

BMJ – Holodd ynglŷn â goblygiadau cynhesu byd-eang ac a fyddai hynny'n arwain at fwy o rywogaethau estron.

GW – Mae dau derfyn tymheredd daearyddol yng Nghymru – Sir Benfro ac Ynys Môn. Wrth i'r tymheredd godi o ganlyniad i gynhesu byd-eang bydd rhywogaethau'n symud tua'r gogledd. Nid yw'r rhywogaethau hyn yn rhywogaethau goresgynnol ar y cyfan. Er hyn, mae'r tymheredd uwch yn golygu y gallai rhywogaethau estron a fyddai wedi marw gynt oherwydd y tymheredd isel oroesi wrth i'r môr gynhesu.

MP – Mae pysgotwyr cregyn gleision yn Afon Menai wedi cael problem gydag ewin mochyn (Crepidula fornicata).

GW – Sylweddolodd y pysgotwr a ddaeth â'r ewin mochyn i Afon Menai beth roedd wedi ei wneud a hysbysodd CCGC. Yna cliriodd y cyfan o'r afon a mynd â hwy i'r Iseldiroedd a'u gorchuddio â chregyn gleision newydd. Gweithiodd hyn.

RT – Gofynnodd beth sy'n eu gwneud yn oresgynol.

GW – Maent yn gorchuddio arwynebau, yn trechu rhywogaethau brodorol ac yn cymryd drosodd. Mae'n broblem fawr.

DR – Llwyddodd CCGC i gael cyhoeddusrwydd i rywogaeth oresgynol y chwistrell fôr ar raglen One Show. A lwyddwyd i gael gwared arni?

GW – Gwnaethpwyd llawer o waith i gael gwared arni, ond daeth yn ôl. Byddant yn rhoi cynnig arni eto y gaeaf hwn.

8 Unrhyw fater o bryder neu ddiddordeb

Cynigiodd RS enw Greg Courtney i gynrychioli diwydiannau ar y Grŵp Cyswllt. Mae Greg yn aelod o BRIG yn y Bermo. Ef yw perchennog tafarn y Last Inn ac mae ganddo gysylltiad agos â nifer o berchnogion safleoedd gwersylla lleol, ac yn y blaen. Dywedodd AH fod lle gwag ar gyfer cynrychiolydd diwydiant a gofynnodd a fyddai'r grŵp yn fodlon i Greg ddod yn un o'r cynrychiolwyr ar gyfer y grŵp buddiannau hwn. Nid oedd gan y grŵp unrhyw wrthwynebiad.

Gweithredu: AH i anfon llythyr at Greg yn cadarnhau bod y Grŵp Cyswllt wedi ei wahodd i gynrychioli diwydiannau ar y grŵp.

DavR – Roedd wedi clywed bod 40 o ddraenogod môr wedi cael eu dal yn afon Dyfi. Gofynnodd a oedd hyn yn gyfreithlon a beth y gallem ei wneud er mwyn sicrhau nad oedd hyn yn digwydd eto. Dywedodd RS ei bod yn bosib nad oedd hyn yn anghyfreithlon os oeddent wedi cadw at y gofynion yn ymwneud â maint y pysgod ac os oedd y pysgod ar gyfer defnydd personol. Yr hyn sy'n anghyfreithlon yw eu pysgota i ddibenion masnachol yn ystod y tymor gwaharddedig, sef 1 Mai i 31 Hydref. Gofynnodd DavR am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r mater hwn erbyn y cyfarfod nesaf. Ychwanegodd RS y gallai hefyd roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau i'r swyddog pysgodfeydd lleol sy'n gweithio i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ychwanegodd BD fod taflen wedi cael ei pharatoi gan y pwyllgor pysgodfeydd môr.

Gweithredu: RS i anfon gwybodaeth ynglŷn â physgodfeydd draenogod y môr at AH. AH i anfon y wybodaeth hon at DavR.

RJ – Mae cais cynllunio wedi'i gyflwyno ar gyfer llithrfa newydd i orsaf y bad achub ym Mhorthdinllaen. Bydd rhywfaint o gynefinoedd yn cael eu colli. Mae datganiad amgylcheddol 450 tudalen wedi cael ei gyflwyno gyda'r cais. Bydd y llithrfa'n cael ei hadeiladu ar goesau. Gallai hyn greu cynefin newydd. Bydd asesiad priodol yn cael ei wneud.

DJ – Mae'r gwaith ar Bont Briwet yn parhau. Bydd cais cynllunio'n cael ei gyflwyno yn y Flwyddyn Newydd.

9 Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Daeth DR â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i bawb am ddod. Diolchodd hefyd i RS a GW am eu cyflwyniadau addysgiadol.

Mae'r cyfarfod nesaf i fod i gael ei gynnal ym Mawrth / Ebrill 2011, rhwng 7 a 9pm ym Mhlas Tan y Bwlch. Dyddiad i'w gadarnhau.

Gofynnwyd i'r grŵp roi Cynllun Rheoli Traethlin 2 a'r Parthau Cadwraeth Morol ar agenda'r cyfarfod nesaf.